

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif



YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GYFUNO YSGOLION CYNRADD CEFN
A CHRAIG YR HESG I GREU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL
NEWYDD AR SAFLE NEWYDD

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r atodiadau hefyd ar gael ar y dudalen
'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor.

Tabl Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	
Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?	2
Beth fydd y broses ymgynghori yn ei olygu?	3
Beth sydd gennych i'w ystyried?	3
Sut ydych chi'n lleisio'ch barn?	4
Barn plant a phobl ifanc	5
Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg	5
Adran 1 – Cefndir y cynnig	
Ysgol Gynradd Cefn – Ein sefyllfa ar hyn o bryd	6 - 8
Ysgol Gynradd Craig yr Hesg – Ein sefyllfa ar hyn o bryd	9 - 11
Beth yw'r sail ar gyfer y cynnig hwn?	11 - 12
Pa ddewisiadau amgen sydd wedi'u hystyried?	12 - 16
Manteision ac anfanteision; risgiau a ffactorau lliniaru	17 - 18
Ysgol Gynradd Gymunedol Newydd – Lle hoffem yr fod	18 - 22
Darpariaeth AAA	23
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)	23
Trefniadau derbyn	24
Adran 2 – Effaith debygol y cynnig	
Yr achos addysgol dros y cynnig	25 - 27
Beth yw'r effaith debygol ar ddisgyblion?	27 - 28
Beth yw'r effaith debygol ar staff?	28 - 29
Goblygiadau ariannol y cynnig	29 - 30
Darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	30
Gwybodaeth am dir ac adeiladau	30
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	31 - 35

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn dymuno gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynnig i gyfuno Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg. Cyflawnir yr uno drwy gau'r ddwy ysgol gynradd bresennol ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd, fwy yn eu lle.

Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei adeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Cynigir y bydd y ddwy ysgol bresennol yn cau gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd erbyn mis Medi 2026 fan hwyraf.

Gwneir y cynnig hwn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae Adran 2.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at elfennau o ad-drefnu ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

Agor ysgol a gynhelir.

Cau ysgol a gynhelir.

Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

Rydym yn ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Corff Llywodraethu ffederal Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.• Rhieni/gofalwyr, darpar rieni/gofalwyr lle bo hynny'n bosibl, ac aelodau staff Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.• Disgyblion Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.• Cyrff llywodraethu ysgolion cynradd eraill cyfagos.• Awdurdodau lleol cyfagos.• Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig.• Gweinidogion Cymru.• Aelodau o'r Senedd ar gyfer etholaethau Rhondda, Cynon a Thaf ac Aelodau o'r Senedd Rhanbarthol ar gyfer yr ardal. | <ul style="list-style-type: none">• Aelodau Seneddol etholaethau Rhondda, Cynon a Thaf.• Estyn.• Undebau llafur athrawon a staff.• Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.• Comisiynydd Heddlu a Throseddau'r ardal.• Darparwyr gofal plant.• Mudiad Meithrin.• Menter Iaith.• Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.• Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.• Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.• Comisiynydd y Gymraeg. |
|---|--|

Beth fydd y broses ymgynghori yn ei olygu?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ddydd Llun 10 Ionawr 2022 a bydd yn cael ei gwblhau am 5pm ddydd Llun 21 Chwefror 2022. Caiff yr adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu a'i grynhoi, a chyflwynir adroddiad i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Mawrth 2022. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau ar gais o'r cyfeiriadau a nodir ar dudalen 3 y ddogfen hon.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad a bydd yn penderfynu, yn seiliedig ar yr adborth, a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi sy'n darparu cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion gael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, **rhaid** i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf y Cabinet sydd ar gael ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Os oes gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymateb iddynt o fewn 7 diwrnod i ddiwrnod penderfynu'r cynnig. Bydd yr adroddiad hwn hefyd ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau ar gais o'r cyfeiriadau a nodir ar dudalen 3 y ddogfen hon.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, bydd y cynnig yn cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedyn. Yn achos y cynnig hwn, ni fydd y dyddiad gweithredu yn hwyrach na mis Medi 2026.

Beth sydd gennych i'w ystyried?

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg dros y newid arfaethedig i addysg gynradd yng Nglyncoch. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth sydd yn y ddogfen hon a chlywed eich barn ynghylch a ydych yn cefnogi'r cynnig i gyfuno Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg. Bydd adeilad ysgol newydd i letya pob plentyn o'r pentref sydd angen lle yn yr ysgol newydd yn cael ei adeiladu ar safle newydd, i gynnwys safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw iddo (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn gynt).

Sut ydych chi'n lleisio'ch barn?

O ganlyniad i'r datblygiadau diweddar o safbwynt pandemig COVID-19, fydd dim cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb. Serch hynny, cynhelir digwyddiadau ymgynghori rhithwir gyda staff, cynghorau ysgol a chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol. Dyma'r manylion:

School(s) Affected	Grŵp	Amser/Dyddiad	Ble?
Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg	Corff Llywodraethu Ffederal a Staff	4:30pm, Dydd Mawrth 18 Ionawr	Microsoft Teams
Ysgol Gynradd Cefn	Cyngor Ysgol	Dydd Mercher 19 Ionawr, amser l'w gadarnhau	Microsoft Teams / Zoom
Ysgol Gynradd Craig yr Hesg	Cyngor Ysgol	Dydd Mercher 19 Ionawr, amser l'w gadarnhau	Microsoft Teams / Zoom
Y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa i rieni a'r cyhoedd	4:30pm, Dydd Mawrth 18 Ionawr	Microsoft Teams

Mae holiadur ymgynghori wedi'i atodi ar dudalen 31 y ddogfen hon. Bydd yr holiadur hefyd ar gael yn y sesiwn galw heibio a nodir uchod, ac ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'.

Mae'r holiadur hefyd yn galluogi ymgynghoreion i nodi a ydynt am gael gwybod am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori unwaith y byddant yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i chi gyflwyno eich barn, sylwadau ac unrhyw gwestiynau sydd gennych yn ysgrifenedig i'r:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ

E-bost: schoolplanning@rctcbc.gov.uk

Dylid derbyn pob gohebiaeth erbyn 5pm fan bellaf ddydd Llun 21 Chwefror 2022.

Noder na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig oni ofynnir yn benodol iddynt fod. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol y gellir anfon gwrthwynebiadau.

Barn plant a phobl ifanc

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais pobl ifanc yn ymwneud â'u cynnwys fel cyfranogwyr gweithredol wrth ddatblygu, darparu, rheoli a gwella eu profiad addysgol a'u profiad fel myfyrwyr.

Mae gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn briodol yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. O'r herwydd, bydd Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys disgyblion fel cyfranogwyr gweithredol drwy gydol y broses ymgynghori hon, ac os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Cynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg drwy gynhyrchu fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Fel y manylir ar dudalen 4 y ddogfen hon, byddwn yn cynnal cyfarfod gyda'r ddau gyngor ysgol i drafod y cynnig gyda disgyblion yr ysgol a'u harwain drwy fersiwn sy'n addas i blant o'r ddogfen ymgynghori. Bydd nodiadau o'r drafodaeth hon yn cael eu cynnwys yn y dogfennau a anfonir at Gabinet y Cyngor i'w hystyried ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018, mae'n ofynnol cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg. Cynhyrchwyd y rhain fel atodiad i'r ddogfen hon ac maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Cefndir y cynnig

Ysgol Gynradd Cefn – Ein sefyllfa ar hyn o bryd...

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli yn Greenfield Avenue, Glyncoch yw Ysgol Gynradd Cefn. Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad ysgol ffrâm ddur unllawr o'r 1970au, wedi'i rannu dros ddwy lefel oherwydd topograffeg goleddfol y safle. Mae'r ysgol mewn ardal gaeedig, wedi'i hamgylchynu gan ffiniau sy'n cynnwys llystyfiant naturiol, ffensys a waliau brics.

Mae'r tu allan i'r adeilad yn baneli concrid wedi'u rhag-gastio a'u gorffen â gro chwipio. Dros amser, mae ardaloedd wedi'u gor-orchuddio mewn byrddau sglodion wedi'u gorchuddio â phlastig, dalennau proffil metel, UPVC fertigol a stribedi pren. Mae'r gymysgedd o ddeunyddiau sydd i'w gweld wrth edrych ar yr adeilad o'r tu allan yn dangos bod angen gwaith atgyweirio achlysurol mynych er mwyn caniatáu i adeilad yr ysgol barhau'n weithredol.

Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2020, mae Ysgol Gynradd Cefn wedi'i graddio'n D o ran cyflwr a D o ran addasrwydd, lle mai A yw'r uchaf a D yw'r isaf o ran perfformiad adeilad yn y drefn honno. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael iawn a bernir bod llawer o elfennau y tu hwnt i gylch bywyd a thu hwnt i gyflwr atgyweirio economaidd. Mae angen gwaith adnewyddu mawr ar y waliau, y to, y drysau a'r ffenestri. Mae'r ffigur cynnal a chadw ôl-groniad ar gyfer yr ysgol oddeutu £588,000. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw y nodwyd ei fod yn ofynnol yn yr ysgol. Nid yw'n cynnwys costau gwelliannau pellach i alluogi'r ysgol i fodloni safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae'r arolwg cyflwr hefyd yn nodi presenoldeb asbestos o fewn adeiladwaith yr adeilad. Cydnabyddir bod Ysgol Gynradd Cefn ymhlith yr ysgolion gwaethaf ym mhorthffolio addysg y Cyngor o ran cyflwr ac addasrwydd.

Nid yw'r safle ei hun ac adeilad yr ysgol yn hygyrch ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r ffens perimedr lefel isel o flaen safle'r ysgol yn ddigonol i atal unigolion rhag cael mynediad i dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae lleoliad yr ysgol, mewn cul-de-sac preswyl, yn gwneud amseroedd gollwng a chodi yn heriol, gyda threfniadau parcio a throi annigonol i rieni.



Y brif fynedfa i Ysgol Gynradd Cefn ar oledf.



Golygfa o adeilad yr ysgol o'r iard lau.

Dangosir niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Cefn dros y pum mlynedd diwethaf yn y tabl a ganlyn. Fe’u cafwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol y mae’n rhaid ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Dangosir nifer y disgyblion oedran meithrin ar gyfer pob blwyddyn ar wahân, fel sy’n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru (2018).

Ysgol Gynradd Cefn – Niferoedd Disgyblion					
	2017	2018	2019	2020	2021
Cyfanswm y disgyblion oedran statudol	108	113	127	126	125
Cyfanswm y disgyblion meithrin	24	26	19	21	21

Mae’r rhagolygon ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Cefn dros y pum mlynedd nesaf, sy’n cael eu cyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi’u darparu isod. Fel y dengys y tabl, disgwylir i niferoedd disgyblion ostwng yn eithaf sylweddol dros y cyfnod hwn.

Ysgol Gynradd Cefn – Rhagolygon Disgyblion								
	Capasiti	Gwirionedd l 2020/21	2021/2 2	2022/2 3	2023/2 4	2024/2 5	2025/2 6	% y lleoedd gwag yn 2025/26
Disgyblion oedran statudol	141	125	118	112	112	106	92	34.8%
Disgyblion meithrin	20	21	19	18	17	18	17	15%

Ysgol Gynradd Craig yr Hesg – Ein sefyllfa ar hyn o bryd ...

Mae Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli yn Lôn y Cefn, Glyncoch. Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad to fflat unllawr o'r 1950au wedi'i adeiladu o frics a blociau, a gafodd estyniad yn ystod y 1990au. Mae adeilad yr ysgol wedi'i amgylchynu gan fannau glaswelltog gwastad a mannau chwarae tarmac. Mae'r safle'n gaeedig gyda ffensys rheiliau metel galfanedig ar y ffin allanol, sy'n ffens lefel isel ar flaen y safle.

Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2019, mae Ysgol Gynradd Craig yr Hesg wedi'i graddio'n C o ran cyflwr ac C o ran addasrwydd, lle mae A yw'r uchaf a D yw'r isaf o ran perfformiad adeilad yn y drefn honno. Mae angen buddsoddiad sylweddol i osod to newydd cyfan ac i osod system boiler newydd. Mae'r ffigur cynnal a chadw ôl-groniad ar gyfer yr ysgol oddeutu £196,000. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw y nodwyd ei fod yn ofynnol yn yr ysgol. Nid yw'n cynnwys costau gwelliannau pellach i alluogi'r ysgol i fodloni safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Nododd yr arolwg cyflwr hefyd bresenoldeb asbestos o fewn adeiladwaith yr adeilad.

Mae hygyrchedd y safle ei hun ac adeilad yr ysgol yn gofyn am welliant er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r ffens perimedr lefel isel o flaen safle'r ysgol yn ddigonol i atal unigolion rhag cael mynediad i'r safle y tu allan i oriau ysgol.



Prif fynedfa Ysgol Gynradd Craig yr Hesg



Golygfa o adeilad yr ysgol o gefn y safle.

Yn y tabl a ganlyn, dangosir niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Craig yr Hesg dros y pum mlynedd diwethaf. Fe'u cafwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol y mae'n rhaid ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Dangosir nifer y disgyblion oedran meithrin ar gyfer pob blwyddyn ar wahân, fel sy'n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru (2018).

Ysgol Gynradd Craig yr Hesg – Niferoedd Disgyblion					
	2017	2018	2019	2020	2021
Cyfanswm y disgyblion oedran statudol	124	122	125	144	149
Cyfanswm y disgyblion meithrin	22	29	36	23	29

Mae'r rhagolygon ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Craig yr Hesg dros y pum mlynedd nesaf, sy'n cael eu cyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'u darparu isod. Fel y dengys y tabl, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn fwy na'r capasiti yn gyson dros y cyfnod hwn.

Ysgol Gynradd Craig yr Hesg – Rhagolygon Disgyblion								
	Capasiti	Gwirionedd l 2020/21	2021/2 2	2022/2 3	2023/2 4	2024/2 5	2025/2 6	% y lleoedd gwag yn 2025/2 6
Disgyblion oedran statudol	150	149	158	157	156	156	153	-2%
Disgyblion meithrin	21	29	17	20	18	18	19	9.5%

Beth yw'r sail ar gyfer y cynnig hwn?

Ffurfiodd ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg ffederasiwn ym mis Medi 2012 o dan un Pennaeth Gweithredol a chorff llywodraethu ffederal. Gelwir yr ysgolion ar y cyd yn 'Ffederasiwn Fern'. Nododd Estyn yn ei adroddiadau diweddaraf fod y Ffederasiwn yn dechrau gweithredu'n fwy effeithiol, gyda'r ddwy ysgol yn cydweithio i sefydlu dull cyson o addysgu ac arweinyddiaeth ar draws y Ffederasiwn, a'i gryfhau. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar y gwaith cadarnhaol hwn a galluogi'r Ffederasiwn i gyflawni ei weledigaeth o ddiwallu lles ac anghenion addysgol disgyblion a datblygu dysgu proffesiynol staff, drwy gyfuno'r ysgolion presennol a darparu un ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer pentref Glyncoch.

Nid yw'r rhaniad presennol o ddarpariaeth addysg gynradd cyfrwng Saesneg yng Nglyncoch rhwng dwy ysgol, sydd ond 0.6 milltir ar wahân, yn gynaliadwy. Ceir tystiolaeth o hyn gan amcanestyniadau nifer y disgyblion, sy'n dangos y bydd gan Ysgol Gynradd Cefn ganran sylweddol o leoedd gwag (34.8%) erbyn blwyddyn academiaidd 2025/26. Mae lleihau lleoedd gwag yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, gydag ysgolion â lleoedd gwag o fwy na 25% yn cael blaenoriaeth i'w hadolygu. I'r gwrthwyneb, rhagwelir y bydd Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn gyson fwy na'i chapasiti presennol o 150 o leoedd disgyblion o flwyddyn academiaidd 2021/22 ymlaen. Mae hyn yn dangos, ar wahân, nad yw'r ysgolion yn addas i fodloni'r galw lleol rhagamcanol am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y blynyddoedd i ddod ac mae'n cefnogi'r achos dros ddarparu ysgol gynradd fwy, fwy hyfyw yn addysgol o faint priodol yn eu lle.

Mae angen gwaith atgyweirio sylweddol ar adeiladau presennol Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg ac nid ydynt bellach yn addas i'r diben, gyda chostau cynnal a chadw ar y cyd eto i'w cwblhau o fwy na £783,000. Mae oedran ac adeiladwaith yr adeiladau yn atal y naill ysgol na'r llall rhag derbyn unrhyw waith uwchraddio sylweddol a fyddai'n caniatáu iddynt gael eu hystyried yn ddarpariaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd adeilad Ysgol newydd, pwrpasol ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, yn helpu'r ysgol newydd i goleddu amgylchedd dysgu sy'n meithrin ac yn cefnogi disgyblion a staff ac a fydd

yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol. Oherwydd cyfyngiadau safleoedd presennol yr ysgolion, nid yw'r naill safle na'r llall yn addas ar gyfer yr ysgol newydd yn ei fformat presennol. Felly, mae angen ysgol newydd ar gyfer Glyncoch y mae'n rhaid ei hadeiladu ar safle newydd.

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r cyfle gorau i ddiogelu safonau addysgol ar gyfer y dyfodol ac mae'n darparu llwyfan ar gyfer gwella drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben. Bydd y buddsoddiad hwn yn creu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21^{ain} Ganrif gan gynnwys gwell darpariaeth TGCh, mannau chwarae creadigol yn yr awyr agored a mynediad i gyfleusterau cymunedol. Bydd y dyluniad yn canolbwyntio ar greu amgylchedd hyblyg sy'n meithrin twf personol disgyblion mewn cyfathrebu, cydweithio, creadigrwydd a sgiliau arwain. Bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth yr Awdurdod Lleol fel y nodir yng Nghynllun Strategol ei Wasanaeth Addysg a Chynhwysiant, sef *'sicrhau tegwch a rhagoriaeth mewn Addysg a gwell lles i bawb'*.

Bydd gwell adeiladau ysgol a gwell perfformiad fel ysgol o bosibl yn arwain at ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'r dalgylch yn dychwelyd i'w hysgol yn y dalgylch, gan gynyddu'r màs critigol a darparu cyfleoedd addysgu mwy proffesiynol i athrawon. Bydd amgylchedd ysgol newydd ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff a bydd yn darparu cyfleoedd cryfach i ddatblygu ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Pa ddewisiadau amgen sydd wedi'u hystyried?

O ystyried cyfyngiadau safleoedd presennol y ddwy ysgol, a thopograffeg heriol y dalgylchoedd, roedd nifer yr opsiynau amgen a oedd ar gael i'w hystyried yn gyfyngedig.

Cynhaliwyd chwiliadau o ddalgylchoedd Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgolion Cynradd Craig yr Hesg i nodi safle addas a oedd yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod â gofod digonol ar y safle.
- Bod ganddo fynediad boddhaol y gellir ei wella.
- Ei fod yn rhydd o unrhyw ddyletswyddau gweledol.
- Bod yn agos at yr ysgolion presennol.
- Bod yn gyfle datblygu hyfyw yn amodol ar astudiaeth ddichonoldeb fanwl.

Yn dilyn yr asesiad hwn, nodwyd mai safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw iddo (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn) oedd yr unig leoliad addas ar gyfer yr ysgol newydd. Teimlir bod y safle cyfunol hwn, sydd yn eiddo i'r Cyngor, o faint addas i ddarparu ar gyfer adeilad ysgol mwy gyda gofod a chyfleusterau allanol priodol, mae ganddo drefniadau mynediad da y gellid eu gwella ymhellach drwy ystyried cyfleuster gollwng pwrpasol (yn amodol ar arolygon pellach a'r asesiad trafniadaeth a thraffig), seilwaith sy'n bodoli eisoes, ac mae mewn lleoliad amlwg yn y pentref, yn agos at y ddwy ysgol bresennol.



Tir gerllaw Ysgol Gynradd Craig yr Hesg - hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn



Golygfa o dir cyfagos o safle Ysgol Gynradd Craig yr Hesg

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, nodwyd opsiynau amgen pellach hefyd a'u hystyried yn ymwybodol. Rhestrir rhai o fanteision ac anfanteision pob un o'r opsiynau na chawsant eu dewis yn y tabl sy'n dilyn:

Opsiwn	Manteision	Anfanteision
Cynnal y status quo.	Ni fyddai angen buddsoddiad rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif. Ni fyddai'n tarfu ar y disgyblion, y rhieni/gofalwyr a'r staff. Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.	Mae agweddau ar y ddau adeilad ysgol wedi cyrraedd diwedd eu hoes o ran defnydd ac maent bellach y tu hwnt i waith atgyweirio economaidd. Nid yw adeiladau'r ysgol o safon ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. O'r herwydd, byddai cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn her. Byddai Ysgol Gynradd Cefn yn parhau i fod yn safle anhygyrch nad yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai gwaith cynnal a chadw wedi'i ôl-gronni o £783,000 ar draws y ddwy ysgol yn parhau. Ni fyddai ystyriaethau parcio yn Ysgol Gynradd Cefn yn cael eu datrys. Ni fyddai'n mynd i'r afael â lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Cefn a diffyg lleoedd yn Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. Ni fyddai manteision creu un ysgol gynradd fwy sy'n fwy hyfyw yn addysgol yn cael eu gwireddu.
Parhau gyda'r Ffederasiwn ac adeiladu dwy ysgol newydd ar wahân ar safleoedd Ysgol Gynradd Cefn a Chraig yr Hesg	Dim newid hirdymor i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff.	Byddai angen buddsoddiad sylweddol o ran Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif; byddai hynny'n anfforddiadwy ac ni fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus. Byddai cyfyngiadau'r safleoedd presennol yn heriol ac o bosibl yn rhwystr. Ni fyddai ystyriaethau mynediad a pharcio yn Ysgol Gynradd Cefn yn cael sylw. Ni fyddai manteision creu un ysgol gynradd fwy sy'n fwy hyfyw yn addysgol yn cael eu gwireddu.

Adeiladu un ysgol newydd ar safle Ysgol Gynradd Cefn.	Dim effaith ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Cefn o ran pellteroedd teithio. Byddai manteision creu un ysgol gynradd fwy hyfyw yn fwy addysgol yn cael eu gwireddu.	Byddai angen buddsoddiad sylweddol o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif. Mae'r safle'n anhygyrch ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai topograffeg y safle yn cyfyngu ar y potensial o ran maint a lleoliad adeilad yr ysgol. Byddai angen defnyddio ystafelloedd dosbarth dros dro drwy gydol y gwaith adeiladu ac o ystyried cyfyngiadau'r safle, efallai y bydd angen eu lleoli yn rhywle arall. Byddai topograffeg y safle yn cyfyngu ar y gallu i adeiladu ysgol gwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, gyda chyfleusterau awyr agored priodol. Mae mynediad y safle, mewn lleoliad preswyl, yn anfoddhaol. Byddai'r ystyriaethau parcio yn waeth nag ydynt ar hyn o bryd. Efallai y bydd rhai o ddisgyblion Cynradd Craig yr Hesg yn gorfod teithio'n bellach i'r ysgol.
--	---	---

Adeiladu un ysgol newydd ar safle Ysgol Gynradd Craig yr Hesg.	Dim effaith ar ddisgyblion Cynradd Craig yr Hesg o ran pellteroedd teithio. Byddai manteision creu un ysgol gynradd fwy sy'n fwy hyfyw yn addysgol yn cael eu gwireddu.	Byddai angen buddsoddiad sylweddol o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif. Efallai y bydd angen defnyddio ystafelloedd dosbarth dros dro drwy gydol y gwaith adeiladu ac o ystyried cyfyngiadau'r safle, efallai y bydd angen eu lleoli mewn mannau eraill. Ni fyddai maint y safle presennol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer adeilad ysgol mwy a gofod/cyfleusterau allanol priodol. Byddai mwy o draffig cerbydau i'r safle presennol, heb y gallu i ddarparu cyfleuster gollwng, yn cynyddu'r ystyriaethau parcio. Efallai y bydd angen i rai o ddisgyblion Cynradd Cefn deithio ymhellach i'r ysgol.
---	---	--

Manteision ac Anfanteision, Risgiau a Ffactorau Lliniaru

Bydd unrhyw gynigion sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion yn anochel yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd, er bod profiad yn dangos y gellir cadw hyn cyn ised â phosibl drwy ymgysylltu ystyrlon drwy gydol y broses ymgynghori, ac os gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig, yn ystod y cyfnod gweithredu.

Amlygir manteision ac anfanteision y cynnig isod, ynghyd â gwybodaeth am sut y gall y Cyngor a'r ysgol reoli unrhyw risgiau a nodwyd.

Manteision
Bydd ysgol safonol newydd ar gyfer yr 21 ^{ain} Ganrif yn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol yng Nglyncoch yn sylweddol, gan gael effaith gadarnhaol sylweddol ar berfformiad addysgol y disgyblion a morâl y staff.
Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan Ffederasiwn Fern, bydd un ysgol gynradd gymunedol fwy, fwy hyfyw yn addysgol, yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell a chyson i staff a disgyblion yng Nglyncoch.
Bydd yr ysgol wedi'i chynllunio i fod yn effeithlon o ran ynni a bydd yn cynnwys systemau ynni adnewyddadwy gan gynnwys paneli ffotofoltäig a chynaeafu dŵr glaw. Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu i safonau Rhagorol BREEAM, a bydd Carbon Sero-Net ar waith, gan gyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor ar gyfer 2021-2025 a'r nod uchelgeisiol o fod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030, ac mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral fel Bwrdeistref Sirol erbyn 2030. Bydd y cynnig hwn hefyd yn cefnogi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Map Llwybr' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
Bydd trefniadau traffig, yn enwedig ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Gynradd Cefn, yn cael eu gwella, gan ystyried hefyd ardal gollwng benodol ar safle newydd yr ysgol (yn amodol ar arolygon pellach a'r asesiad trafnidiaeth a thraffig).
Bydd yr ysgol wedi'i chynllunio i fod yn ysgol gymunedol gwbl hygyrch ac integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei chynnwys yn yr ysgol, gan alluogi'r gymuned leol i ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.
Bydd yr ysgol newydd yn bodloni safonau 'Diogelu drwy Ddylunio'. Bydd y safle'n cael ei amgáu gan ffensys perimedr dros 2 fetr o uchder, gan atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r safle y tu allan i oriau ysgol.
Bydd cyfleusterau allanol Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif, gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd, yn caniatáu i staff, disgyblion a'r gymuned elwa ar fwy o brofiadau addysgu a dysgu.

O ystyried lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd, rhagwelir na fydd unrhyw gostau cludiant ychwanegol. Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth Dosbarth Cymorth Dysgu sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd.

Mae'r safle arfaethedig mewn lleoliad amlwg wrth galon y gymuned. Ychydig iawn o newid lleoliad fydd ar gyfer disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr presennol Craig yr Hesg, a dylai'r newidiadau ar gyfer disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr presennol Ysgol Gynradd Cefn fod wedi'u cadw i'r isafswm o ystyried pa mor agos mae'r safle newydd.

Anfanteision

Bydd cost yr ysgol newydd, a fydd yn cael ei hariannu drwy Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif, yn sylweddol.

Mae'n anochel y bydd rhai o ddisgyblion a staff presennol Ysgol Gynradd Cefn yn byw ymhellach o safle newydd yr ysgol.

Gallai symud i safle ysgol newydd achosi rhywfaint o bryder i rai disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr.

Efallai y bydd goblygiadau staffio yn hynny, er enghraifft, dim ond un swydd fydd ei angen yn strwythur staffio'r ysgol newydd ar gyfer rhai rolau sy'n cael eu hailadrodd ar hyn o bryd yn yr ysgolion presennol. Bydd staff yn pryderu am ddiogelwch eu swyddi a dyna pam y bydd y corff llywodraethu dros dro, cyn gynted â phosibl, ac unwaith y bydd y prosesau statudol wedi'u cwblhau, yn mynd i'r afael â'r materion staffio.

Risgiau	Tebygolrwydd	Effaith	Camau Lliniaru
Rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall	Isel	Isel	Bydd ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn parhau drwy gydol y cyfnod ymgynghori, ac os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig, bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Ysgol Gynradd Gymunedol Newydd – Lle yr hoffem fod...

Cynigir cyfuno Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg. Cyflawnir yr uno drwy gau'r ddwy ysgol bresennol ac agor ysgol gynradd gymunedol newydd i'w disodli. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn). Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Bydd ganddi nifer derbyn arfaethedig o 51 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, a chapasiti cyffredinol o 360 (ynghyd â meithrinfa).



Ardal adnoddau dysgu amlbwrpas neu 'ofod calon' mewn Ysgol yr 21^{ain} Ganrif a ddarperir gan y Cyngor.



Ystafell ddosbarth iau nodweddiadol mewn Ysgol yr 21^{ain} Ganrif a ddarperir gan y Cyngor.



Ystafell ddosbarth cyfnod sylfaen nodweddiadol mewn Ysgol yr 21^{ain} Ganrif a ddarperir gan y Cyngor.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y gofod yn cynnwys:

Amgylcheddau dysgu modern, hyblyg i bob disgybl, neuadd fawr/ardal fwyta, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.

Ardaloedd mewnol ac allanol i'w defnyddio gan y gymuned leol.

Rhywfaint o gapasiti a lle ychwanegol ar gyfer ymyriadau anghenion dysgu ychwanegol.

Gwell mannau awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.

Bydd traffig wedi'i reoli'n well.

Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys ardal chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm i ddisgyblion 8 oed a throsodd ac Ardal Gemau Aml-dddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion newydd gynnwys mannau chwarae meddal, sy'n cynnwys gofod glaswelltog fel arfer i ddisgyblion eistedd a chymdeithasu, ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a lle cysgodol i ategu'r mannau chwarae meddal o gwmpas safle'r ysgol. Bydd yr ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal gynefin a fydd yn gweithredu fel lle ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr.



Golygfa allanol o Ysgol Gynradd Cwmaman a agorwyd gan y Cyngor yn 2018.



Enghraifft o Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.



Enghraifft o ardal dysgu awyr agored yn Ysgol Gynradd Cwmaman.

Bydd darpariaeth ar y safle ar gyfer parcio staff yn ogystal ag ystyried cyfleuster gollwng ar y safle i ddisgyblion (yn amodol ar arolygon pellach a'r asesiad trafnidiaeth a thraffig).

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Mae dau Ddosbarth Cymorth Dysgu, ag adnoddau wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol, ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac anawsterau ymddygiad wedi'u lleoli yn Ysgol Gynradd Cefn ar hyn o bryd. Bydd y ddarpariaeth hon yn trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd yn cael ei gwella gan y cyfleusterau diweddaraf a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael yn yr ysgol newydd.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Mae'r Cynllun yn offeryn cynllunio ieithyddol hirdymor sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer cynllunio strategol, darpariaeth a thwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg. Drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a chynllunio a buddsoddi strategol effeithiol, nod y Cyngor yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Gellir gweld a lawrlwytho Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg y Cyngor fel y mae ar hyn o bryd o wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol:

http://statiaith.com/gwefan/pdfs/CynlluniauStrategolyGymraegMewnAddysg/2017_2020/rctc_bc_cy.pdf

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg am gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2022 a 2032 yn 2021 ac mae bellach wedi'i gwblhau. Bydd y Cyngor yn cyflwyno'r Cynllun newydd i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ddiwedd mis Ionawr 2022.

Yn gynwysedig ymhlith y rhestr o ddatblygiadau strategol, camau gweithredu a chanlyniadau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â hwy i helpu i gyflawni'r targedau a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fel y mae ar hyn o bryd, mae ymrwymiad i:

- Ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg drwy gynllunio pwrpasol i hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol bresennol yn cefnogi'r nod hwn drwy ddefnyddio Cymraeg achlysurol lle bynnag y bo modd a defnyddio mentrau fel 'Helpwr Heddiw', 'Seren yr Wythnos' a 'Criw Cymraeg'. Bydd yr ysgol newydd yn parhau i wneud hynny a bydd yn adeiladu ar hyn drwy ymrwymo i gyflawni Siarter Iaith 'Campws Cymraeg', fframwaith i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol.

Trefniadau derbyn

Bydd dalgylch yr ysgol newydd yn cyfuno'r dalgylchoedd presennol ar gyfer Ysgolion Cynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed sydd angen addysg gynradd cyfrwng Saesneg. Bydd ganddo nifer derbyn arfaethedig o 51 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn, a chapasiti cyffredinol o 360 (ynghyd â'r feithrinfa).

Yn achos gordanysgrifio mewn unrhyw ysgol, cymhwysir meini prawf derbyn cyhoeddedig i bob cais a dderbynnir am leoedd, i benderfynu pa ddisgyblion sy'n llwyddo i gael y lleoedd sydd ar gael. Rhestrir y meini prawf hyn, a amlinellir yn ein llyfryn polisi derbyn i ysgolion o'r enw 'Dechrau'r Ysgol' yn nhrefn blaenoriaeth isod:

- Categori Un – Plant 'sy'n derbyn gofal' (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant a oedd yn 'derbyn gofal' yn flaenorol.
- Categori Dau – Plant y mae eu cartref y tu mewn i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol o'r un cyfeiriad, a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad derbyn disgwyledig y plentyn iau.
- Categori Tri – Plant y mae eu cartref y tu mewn i ddalgylch yr ysgol nad oes ganddynt frawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu'r ysgol.
- Categori Pedwar – Plant y mae eu cartref y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol o'r un cyfeiriad, a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad derbyn disgwyledig y plentyn iau.
- Categori Pump – Plant y mae eu cartref y tu allan i ddalgylch yr ysgol nad oes ganddynt frawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r term 'cartref' yn y categorïau uchod yn cyfeirio at leoliad gwirioneddol yr annedd breswyl y mae'r plentyn yn byw ynddi.

Bydd plant yn cael eu derbyn hyd at y Rhif Derbyn a Gyhoeddwyd yn nhrefn y flaenoriaeth fel yr amlinellir uchod. Os na ellir cynnig lle i bob ymgeisydd, o fewn unrhyw un o'r categorïau blaenoriaeth a restrir, rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Bydd pellter yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf, diogel rhwng cyfeiriad y cartref a'r gât ysgol agored agosaf. Mewn ardaloedd lle nad oes llwybr cerdded diogel wedi'i nodi, defnyddir y llwybr gyrru byrraf rhwng cyfeiriad y cartref a'r gât ysgol agored agosaf. Bydd y pellter hwn yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r 'System MapInfo' yn unig. Ni fydd mesuriadau a gyfrifir gan unrhyw system arall yn cael eu hystyried. Cyfeiriad y cartref mewn achosion lle mae rhieni/gofalwyr wedi rhannu cyfrifoldeb am blant, fydd y cyfeiriad y telir y Budd-dal Plant iddo.

Effaith debygol y cynnig

Yr achos addysgol dros y cynnig

Mae'r cynnig hwn yn rhan o Raglen Fuddsoddi ehangach y Cyngor ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac mae'n cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif ac mae'n cefnogi rheolaeth strategol well ystâd addysg y Cyngor.

Yn ogystal â'r amcan hwn, dylai cynigion trefniadaeth ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn eu cynnig, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau cyffredinol mewn safonau, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith fuddiol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Arolygwyd Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg gan Estyn ym mis Medi 2018.

Roedd perfformiad Ysgol Gynradd Cefn yn y pum maes arolygu fel a ganlyn:

Maes arolygu	Barn
Safonau	Yn foddhaol ac angen gwella
Lles ac Agweddau at Ddysgu	Yn foddhaol ac angen gwella
Addysgu a Phrofiadau Dysgu	Yn foddhaol ac angen gwella
Gofal, Cymorth ac Arweiniad	Yn foddhaol ac angen gwella
Arweinyddiaeth a Rheoli	Yn foddhaol ac angen gwella

Nododd Estyn hefyd argymhellion i'r ysgol eu gweithredu er mwyn gwneud gwelliannau i ansawdd y ddarpariaeth addysg a gynigir. Roedd argymhellion Estyn fel a ganlyn:

- A1** Sefydlu timau arwain ac addysgu sefydlog ac effeithiol.
- A2** Gwella prosesau monitro a gwella ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar godi safonau ar gyfer disgyblion.
- A3** Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod unrhyw drefniadau grwpio ar draws dosbarthiadau yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd effeithiol.
- A4** Codi safonau mewn ysgrifennu.
- A5** Sicrhau bod pob athro yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.
- A6** Gwella presenoldeb disgyblion.

Roedd perfformiad Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn y pum maes arolygu fel a ganlyn:

Maes arolygu	Barn
Safonau	Yn foddhaol ac angen gwella

Lles ac Agweddau at Ddysgu	Yn foddhaol ac angen gwella
Addysgu a Phrofiadau Dysgu	Yn foddhaol ac angen gwella
Gofal, Cymorth ac Arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a Rheoli	Yn foddhaol ac angen gwella

Nododd Estyn hefyd argymhellion i'r ysgol eu gweithredu er mwyn gwneud gwelliannau i ansawdd y ddarpariaeth addysg a gynigir. Roedd argymhellion Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Craig yr Hesg yn adlewyrchu'r rhai ar gyfer Ysgol Gynradd Cefn, ac eithrio **A6** – Gwella presenoldeb disgyblion, a hepgorwyd o'r rhestr argymhellion ar gyfer Ysgol Gynradd Cefn.

Mewn ymateb i ganlyniad arolygiadau craidd Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg, roedd yn ofynnol i Ffederasiwn Fern Iunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion, yn amodol ar adolygiad gan Estyn. Ym mis Ionawr 2020, cynhaliwyd ymweliad dilynol a oedd yn barnu nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhellion. O ganlyniad, gosododd Estyn y ddwy ysgol yn y categori 'Gwelliant Sylweddol' a adroddwyd, sy'n gofyn am fwy o weithgarwch dilynol.

Ers cael eu rhoi yn y categori 'Gwelliant Sylweddol' a adroddwyd, mae'r ddwy ysgol wedi cael eu monitro'n rheolaidd, bob hanner tymor, gan y gwasanaeth gwella ysgolion (Consortiwm Canolbarth y De). Mae'r holl adroddiadau cynnydd a baratowyd ac a gynhyrchwyd gan y Partner Gwella o'r Consortiwm wedi dangos sut mae'r ysgolion, dros amser, wedi gwneud gwelliannau. Yn ystod Tachwedd 2021 roedd y ddwy ysgol yn ganolbwynt ailymweliad arolygu gan Estyn, a oedd yn fodlon â'r cynnydd a waned o safbwynt yr argymhellion. O ganlyniad i hyn, mae'r ddwy wedi'u dileu o'r categori 'Gwelliant Sylweddol'.

Mae'r Cyngor o'r farn y bydd cau'r ddwy ysgol ac agor un ysgol newydd, bwrpasol sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif ar safle newydd yn cael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum ardal arolygu Estyn, fel y nodir isod:

1. **Safonau** – Bydd dod â'r holl athrawon a disgyblion at ei gilydd drwy greu un ysgol ar un safle yn adeiladu ar y gwaith a'r cydweithio traws-ysgol effeithiol sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan Estyn ac yn hwyluso cysondeb a gwelliannau pellach mewn safonau. Bydd adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yn rhoi mannau addysgu gwell i staff a disgyblion, ardaloedd ag adnoddau pwrpasol, amgylcheddau dysgu ysgogol ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o'r radd flaenaf, a bydd pob un ohonynt yn cefnogi'r ysgol i godi safonau, a gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion Estyn.
2. **Lles ac Agweddau at Ddysgu** – Bydd safle ysgol newydd gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff. Bydd gofod awyr agored helaeth yn darparu amgylchedd amrywiol a diddorol i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddo. Bydd un ysgol newydd sydd â gweledigaeth ac ethos diddorol yn ysbrydoli disgyblion a staff ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau at ddysgu. Bydd ysgol fwy yn darparu arbedion maint a chyfleoedd i ddatblygu rolau mwy arbenigol i ddiwallu'r ystod amrywiol o anghenion dysgwyr a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
3. **Profiadau Addysgu a Dysgu** – Cydnabu Estyn fod gwaith cydweithredol ar draws y ffederasiwn, gan gynnwys defnyddio fformat cynllunio y cytunwyd arno, yn dechrau sefydlu dull cyson o addysgu. At hynny, nodwyd bod symud staff rhwng ysgolion wedi cryfhau

ansawdd yr addysgu. Bydd cyfuno'r ddwy ysgol i greu un tîm staff mwy ar un safle yn cynyddu cyfleoedd i ryngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad, ac yn y pen draw yn gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu. Bydd adeilad ysgol addas i'r diben yn sicrhau bod staff yn gallu darparu cwricwlwm cytbwys ym mhob cyfnod allweddol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd – 2022, tra bydd amgylchedd dysgu'r 21^{ain} Ganrif yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac felly mwy o ddewis ac amrywiaeth ym mhrofiadau dysgu disgyblion.

4. **Gofal, Cymorth ac Arweiniad** – Cydnabyddir bod yr ysgolion presennol yn gymunedau cynhwysol sy'n cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Bydd adeilad ysgol newydd ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yn galluogi'r ysgol newydd i adeiladu ar yr arferion gwaith da a'r mentrau sydd gan yr ysgolion presennol. Bydd amgylchedd yr 21^{ain} Ganrif yn cynnig cyfleoedd pellach i ddatblygu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw a meithrin disgyblion. Bydd adeilad cwbl hygyrch a darpariaeth mannau hyblyg yn caniatáu i'r ysgol ymestyn ei harfer dda a hwyluso ymyriadau ac ymgysylltiad pellach â theuluoedd a'r gymuned leol.
5. **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** – Bydd disodli dwy ysgol ffederal gydag un ysgol newydd ar un safle yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes gan Ffederasiwn Fern ac yn galluogi'r corff llywodraethu ac uwch dîm rheoli i weithredu polisiau ac arferion mwy cyson a di-fwlch. Ers dechrau yn y swydd, mae'r Pennaeth Gweithredol wedi darparu arweinyddiaeth sefydlog ar draws y ddwy ysgol a model effeithiol o arweinyddiaeth ddosbarthedig ar draws y ddau safle ysgol. Bydd disodli dwy ysgol ar wahân mewn cyflwr gwael gydag un ysgol o'r radd flaenaf ar safle newydd yn galluogi'r Pennaeth a'r uwch dîm rheoli i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol a chanolbwyntio'n llawn ar gyflawni argymhellion Estyn a sicrhau gwell deilliannau addysgol ar adeg o ddiwygio ac adnewyddu sylweddol yn y system addysg.

Beth yw'r effaith debygol ar ddisgyblion?

Rhagwelir na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion. I ddechrau, gall rhai disgyblion gael eu brawychu gan y posibilrwydd o symud i ysgol newydd, fwy ar safle newydd, ond bydd y Pennaeth a'r tîm staff yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol trwy gydol y cyfnod pontio hwn. Er y gall fod rhai newidiadau i staff, cyhyd â bod niferoedd y disgyblion yn parhau ar y lefelau presennol, rhagwelir y bydd y mwyafrif helaeth o'r staff a gyflogir ar hyn o bryd yn Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg yn 'slotio' i swyddi tebyg yn yr ysgol newydd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn dod â llawer o fanteision i bob disgybl. Dylai cael eich addysgu mewn adeilad ysgol newydd, o'r radd flaenaf, a adeiladwyd yn bwrpasol gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf, gael effaith sylweddol ar ansawdd ac amrywiaeth y profiad dysgu a pherfformiad addysgol disgyblion.

Ar hyn o bryd mae 11 o blant yn mynychu'r Dosbarthiadau Cymorth Dysgu yn Ysgol Gynradd Cefn a bydd y ddau ddosbarth yn cael eu symud i'r ysgol newydd a bydd pob disgybl yn profi'r manteision a ddaw yn sgil Ysgol newydd yr 21^{ain} ganrif.

Bydd bod yn rhan o ysgol fwy yn golygu bod disgyblion yn fwy tebygol o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda'u grŵp oedran eu hunain yn bennaf, gan alluogi athrawon i gynnig cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol i ddisgyblion i gefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y rhai

lleiaf a mwyaf galluog. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gystadleuaeth i ddisgyblion, sy'n gwella deilliannau addysgol, a'r cyfle i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol.

Bydd dalgylch yr ysgol newydd yn cyfuno dalgylchoedd presennol Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg. Er ei bod yn anochel y bydd rhai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Cefn yn byw ymhellach i ffwrdd o'r safle newydd, bydd eraill, mewn gwirionedd, yn byw, yn nes ato. Yn gyffredinol, ystyrir mai ychydig iawn o effaith a welir ar drefniadau teithio disgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fynegir mewn saith nod craidd a bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael dechrau da mewn bywyd.
2. Yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio.
4. Yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
5. Y gwrandewir arnynt, eu trin â pharch, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
7. Nid ydynt dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig hwn o fudd i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg ar hyn o bryd yn unol â'r saith nod craidd a nodir uchod.

Ceir rhagor o wybodaeth am effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion, gan gynnwys sut mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac asesiad o'r cynnig ar y Pum Ffordd o Weithio, yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhwysir yn Atodiad B.

Beth yw'r effaith debygol ar staff?

Fel gydag unrhyw newid mawr, gallai fod rhai newidiadau tymor byr ac o bosibl newidiadau hirdymor yn y strwythur staffio. Gan mai darpariaeth ysgol newydd fydd hon, bydd corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu os cytunir ar benderfyniad i fwrw ymlaen â'r cyfuno. Gallai'r corff llywodraethu ffederal presennol gyflawni'r swyddogaeth hon. Prif rôl y corff llywodraethu dros dro hwn fydd sefydlu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd, penodi ei uwch dîm rheoli a gwneud penderfyniadau am y dull o 'slotio' yr holl staff eraill yn y swyddi sydd ar gael yn yr ysgol newydd. Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol sefydledig sy'n rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr am reoli newid sefydliadol.

Bydd corff llywodraethu parhaol newydd yn cael ei benodi ar gyfer yr ysgol newydd pan fydd yn agor erbyn mis Medi 2026 fan hwyraf. Bydd y corff llywodraethu dros dro yn aros yn ei le hyd nes y gwneir pob penodiad llywodraethwr. Bydd corff llywodraethu ffederal presennol y ddwy ysgol hefyd yn parhau i gyflawni ei swyddogaeth hyd nes y bydd yr ysgol newydd yn agor.

Bydd llawer o fanteision i staff addysgu, a ddylai wella safonau addysgu o fewn yr ysgol. Bydd tîm staff mwy yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad, ac yn y pen draw yn gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu. At hynny, mae llawer o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran cymysg ar hyn o bryd. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo a bod ysgol fwy yn cael ei chreu, mae disgyblion yn fwy tebygol o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda'u grŵp oedran eu hunain yn bennaf, sy'n ei gwneud yn llawer haws i'r athro dosbarth ddarparu cwricwlwm a chymorth priodol i bob disgybl, gan

gynnwys y lleiaf a'r mwyaf galluog. Dylai hyn arwain at safonau uwch o ran addysgu a dysgu a gwell deilliannau addysgol.

Bydd staff addysgu a chymorth hefyd yn elwa ar well cyfleoedd i ddatblygu staff yn yr ysgol newydd. Bydd creu ysgol fwy hefyd yn rhoi cyfle i staff arbenigo mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm. Mae ysgolion llai sydd â llai o staff yn gofyn i staff ymgymryd â rolau lluosog, a all arwain at fwy o lwyth gwaith a llai o gyfleoedd i arbenigo. Mae ysgol fwy gyda mwy o staff yn rhoi cyfle i arbenigedd o'r fath, gyda'r gallu i rannu llwyth gwaith yn fwy effeithiol, gan roi mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu eu gyrfaedd.

Bydd yr ysgol newydd o'r radd flaenaf yn darparu mannau addysgu gwell i staff a disgyblion, ardaloedd adnoddau pwrpasol, amgylcheddau dysgu ysgogol a chyfleusterau awyr agored o'r radd flaenaf. Bydd gwelliannau o'r fath yn ansawdd y lleoliad addysgol a'r amgylchedd gwaith yn cael effaith enfawr ar ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu y gall athrawon eu cynnig i ddisgyblion ac mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol ar forâl, lles a chadw staff.

Goblygiadau ariannol y cynnig

Bydd goblygiadau ariannol sylweddol i'r cynnig i gyfuno Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg. Bydd symud o sefyllfa dwy ysgol ar wahân gyda dwy gyllideb ar wahân i un ysgol gydag un gyllideb yn arwain at ddileu neu leihau rhai llinellau cyllideb. Fodd bynnag, gan fod yr ysgolion eisoes wedi ffedereiddio ac yn rhannu Pennaeth Gweithredol, byddai'r effaith ar gostau staffio wedi'i lleihau. Rhagwelir y byddai'n arwain at rai arbedion gan na fyddai gofynion cynnal a chadw ar gyfer yr ysgol newydd gyda Charbon Sero-Net ar waith, ond mae costau eraill yn debygol o gynyddu, er enghraifft, y trethi lleol fydd yn daladwy ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

Er nad yw'n bosibl bod yn fanwl gywir am gostau neu arbedion refeniw yn y dyfodol, bydd cymaint yn dibynnu ar benderfyniadau'r Corff Llywodraethu yn y dyfodol, nodir crynodeb o'r effeithiau cyllidebol hysbys isod.

	Ysgol Gynradd Cefn (Cyfredol)	Ysgol Gynradd Craig yr Hesg (Cyfredol)	Ysgol Gynradd Newydd (Dyfodol)	Arbedion Refeniw
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyllideb Refeniw Flynyddol yn seiliedig ar 2021/22	699	562	1261	78

Yn ogystal, bydd y cynnig yn dileu ffigur cynnal a chadw sylweddol wedi'i ôl-gronni o fwy na £783k ac yn dileu costau o ddydd i ddydd sy'n gysylltiedig â'r adeiladau sy'n dirywio. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn arwain at gostau cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y cynnig hwn yn disodli Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg gydag un ysgol newydd i'w hadeiladu ar gost amcangyfrifedig o £9 miliwn. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif. Bydd costau'r

prosiect yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori a cheisir cymeradwyaethau yn unol â gweithdrefnau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Mae dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' diogel i'r ysgol honno. Mae'r term ysgol addas yn berthnasol i'r dalgylch, Cymraeg, Saesneg, dwy iaith neu ysgol brif ffrwd wirfoddol a gynorthwyr (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Diffinnir y gyfraith sy'n ymwneud â 'phellter cerdded' diogel fel dwy filltir ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd.

Mae'r Cyngor wedi arfer y pwerau disgresiwn a roddwyd iddo o dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i wneud darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag Ysgolion Cynradd Cefn a Chraig yr Hesg, a fydd hefyd yn berthnasol i'r ysgol newydd, wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf cymhwysedd ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Darperir cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf cymhwysedd 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pumed pen-blwydd) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r term ysgol addas yn berthnasol i'r dalgylch, Cymraeg, Saesneg, dwy iaith neu ysgol brif ffrwd wirfoddol a gynorthwyr (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Gellir gweld a lawrlwytho'r wybodaeth lawn mewn perthynas â chludiant o'r Cartref i'r Ysgol a ddarperir gan y Cyngor o wefan y Cyngor drwy:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolTransport.aspx>

Ar hyn o bryd, mae'r unig ddisgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol o'r naill ysgol neu'r llall yn mynychu'r ddarpariaeth Dosbarth Cymorth Dysgu yn Ysgol Gynradd Cefn. Ar hyn o bryd, mae 10 disgybl yn cael mynediad i ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol at y diben hwn.

Gwybodaeth am dir ac adeiladau

Os gweithredir y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon, ni fydd defnydd pellach i safle presennol Ysgol Gynradd Cefn. Gan fod hon yn broses ymgynghori gychwynnol, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto mewn perthynas â dyfodol y safle a'r adeilad hwn. Caiff y mater hwn ei reoli yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Dir ac Adeiladau Dros Ben y cytunwyd arno.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a helpu'r Cyngor i ddod i benderfyniad ar y cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ateb y cwestiynau canlynol. Sylwer, ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddir gennych yn cael ei rhannu a bydd ond yn cael ei defnyddio i roi adborth i chi, os byddwch yn gofyn amdani. Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw sylwadau a allai eich adnabod yn ddienw yn yr adroddiad ymgynghori a gynhyrchir. Dylid dychwelyd holiaduron wedi'u cwblhau at:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Y Cynnig

Cau Ysgolion Cynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a throsglwyddo pob disgybl i ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Glyncoch. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle newydd, i gynnwys safle presennol Ysgol Gynradd Craig yr Hesg a'r tir gerllaw iddo (hen safle Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn).

A ydych yn cytuno â'r cynnig?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr

Rhowch wybod i ni beth yw'r rhesymau dros eich dewis

Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (cadarnhaol neu negyddol)?

Ydych chi'n meddwl bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sut ydych chi'n meddwl y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu leihau effeithiau negyddol?

 Nodwch unrhyw safbwyntiau neu bwyntiau ychwanegol yr hoffech iddynt gael eu hystyried (atodwch daflenni ychwanegol os oes angen).

 Nodwch pwy ydych chi (e.e., rhiant/gofalwr disgybl mewn ysgol a enwir, llywodraethwr mewn ysgol a enwir, etc.)

 Enw (dewisol):

Rhowch fanylion cyswllt os hoffech gael eich hysbysu ynghylch cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.


Anfonwch holiaduron wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad uchod erbyn dydd Llun 21 Chwefror 2022 fan hwyraf.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut mae eich preifatrwydd yn cael ei ddiogelu a sut a pham rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr Ymgynghoriad:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/serviceprivacynotices/ChiefExecutives/ConsultationPrivacyNotice.aspx>

a

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/DataProtection.aspx>





Handwriting practice lines consisting of 30 horizontal lines. Each line is preceded by a small vertical tick mark on the left side.

